Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Branas

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Branas

Mae Ysgol Branas yn darparu addysg a therapi arbenigol ar gyfer bechgyn 11-18 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae 19 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn Lloegr ac yn byw yn y cartrefi plant a weithredir gan Caretech. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt gynllun datblygu unigol (CDU) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae'r pennaeth dros dro presennol wedi bod yn ei swydd er mis Chwefror 2024.

Adeg yr arolygiad craidd yn 2022, canfu AEF nad oedd yr ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, roedd yn ofynnol i'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd isod ar gyfer pob safon:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 dylai'r ysgol:

- Ddatblygu polisi cwricwlwm wedi'i amlinellu'n ysgrifenedig ac a gefnogir gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i roi ar waith yn effeithiol
- Sicrhau bod y cwricwlwm yn rhoi profiad yn y meysydd dysgu canlynol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol: ieithyddol, mathemategol, gwyddonol, technolegol, dynol a chymdeithasol, corfforol, ac esthetig a chreadigol
- Darparu rhaglen o weithgareddau sy'n briodol i anghenion disgyblion uwchlaw'r oedran statudol
- Darparu adnoddau ystafell ddosbarth sy'n ddigonol o ran ansawdd, nifer ac ystod, a'u defnyddio'n effeithiol
- Cyflwyno fframwaith y gellir gwerthuso perfformiad disgyblion yn unol ag ef

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod safon yr addurno yn foddhaol ac y caiff ei gynnal yn ddigonol.

Ar ôl yr arolygiad craidd, gofynnwyd i'r ysgol lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Ymwelodd tîm o AEF â'r ysgol ddwywaith yn 2023 i drafod eu cynnydd yn erbyn eu cynllun gweithredu. Ar ôl hynny, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Mawrth 2024 i werthuso cydymffurfiad yr ysgol â'r meysydd blaenorol o ddiffyg cydymffurfio. Adeg yr ymweliad hwn, gwerthuswyd cydymffurfiaeth yr ysgol yn erbyn Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2024.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Ers adeg yr arolygiad craidd yn 2022, mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn ymateb i feysydd o ddiffyg cydymffurfio. Mae’r ysgol bellach yn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024.

Mae’r tîm addysg wedi cydweithio’n llwyddiannus i ddatblygu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n diwallu anghenion a diddordebau disgyblion yn dda. Mae’r ysgol yn parhau i amrywio’r cynnig presennol gyda phrynhawniau opsiynau sy’n cynnwys pynciau eraill fel ieithoedd tramor modern, cerddoriaeth a chymwysterau galwedigaethol. Mae eu hymagwedd at gynllunio’r cwricwlwm yn addasol ac yn fyfyriol i ddiwallu anghenion disgyblion.

Mae arweinwyr yn casglu ystod o wybodaeth bwysig o asesiadau am bob disgybl yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys asesiadau gwaelodlin pan fyddant yn ymuno â’r ysgol, cynnydd yn erbyn cynlluniau dysgu unigol, a chyrhaeddiad ar lefel pwnc. Mae staff yn defnyddio’r wybodaeth hon yn briodol i adolygu cynnydd disgyblion ar lefel unigol ac ysgol gyfan. Ymhellach, mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i ddarparu ystod o weithgareddau ystyrlon ar gyfer disgyblion i ddatblygu medrau pwysig yn raddol dros gyfnod.

Mae arweinwyr wedi gwella cynnal a chadw ac adnoddau yn yr ysgol yn briodol ers adeg yr arolygiad craidd. O ganlyniad i offer TG newydd, mae bron pob un o’r disgyblion yn defnyddio a datblygu eu medrau digidol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion. Maent yn defnyddio’r perthnasoedd hyn yn effeithiol i gefnogi ymgysylltu cadarnhaol. Adeg yr ymweliad hwn, dangosodd bron pob un o’r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae arweinwyr yn rhoi ffocws cryf ar bontio a chynorthwyo dysgwyr i ddatblygu’r medrau sydd eu hangen i symud ymlaen i gyrchfannau cadarnhaol yn y dyfodol. Mae arweinwyr wedi cryfhau cysylltiadau â cholegau addysg bellach lleol, yn ogystal â’r tîm clinigol a phreswyl mewnol, i gynllunio’n ofalus ar gyfer cyfnod pontio pob un o’r disgyblion wrth iddynt adael yr ysgol.

Mae gan arweinwyr weledigaeth a gwerthoedd clir. Maent yn rhoi disgyblion yn ganolog i wneud penderfyniadau. Maent wedi cydweithio’n llwyddiannus â’r tîm staff ehangach a’r disgyblion i ddatblygu logo a datganiad cenhadaeth newydd: ‘mae cymuned sy’n dysgu yn gymuned â chalon’.

### Meysydd ar gyfer gweithredu

Bu sawl newid i’r arweinyddiaeth yn yr ysgol ers adeg yr arolygiad craidd. Mae’r rhain yn cynnwys newid pennaeth yn ogystal â goruchwyliaeth a ddarperir gan y sefydliad ehangach. O ganlyniad i’r ansefydlogrwydd hwn, nid yw’r prosesau i werthuso gwaith yr ysgol wedi’u sefydlu’n llawn eto. Mae’r arweinwyr presennol wedi cydnabod bod hyn yn flaenoriaeth i’r ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2024